



HYSBYSIAD CYHOEDDUS

CYNGOR CYMUNED RADUR & THREFORGAN

SEDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED – HYSBYSIAD CYFETHOL

[Yn unol ag Adran 116 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011]

ENW'R GYMUNED RADUR & THREFORGAN

ENW'R WARD

- **GOGLEDD RADUR**
- **TREFORGAN**

RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN fod tair sedd wag ar gyfer Cynghorydd ar gyfer y Wardiau a'r Gymuned uchod a bod y Cyngor Cymuned yn bwriadu cyfethol cynghorydd i'w llenwi

Gellir gweld gwybodaeth am y Cyngor yn www.radyrandmorganstown.org

Ceisir datganiadau o ddiddordeb gan aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn cynrychioli eu cymuned ar y Cyngor Cymuned

Mae'r Cyngor yn dymuno gwahodd pobl â diddordeb a phobl gymwys i gyflwyno eu ceisiadau i'r cyfeiriad isod ar gyfer rôl Cynghorydd trwy lythyr neu e-bost yn amlinellu'r canlynol:

- y cyfraniad y credwch y gallech ei wneud i waith y Cyngor;
- y rhinweddau personol y byddech yn eu cyflwyno i'r rôl
- eich argaeledd ar gyfer mynychu cyfarfodydd.

Rhaid eich bod yn ddinesydd Prydeinig, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd a bod o leiaf 18 oed; a'ch bod yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- Bod (a pharhau i fod) wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned a enwir uchod;
- Yn ystod y 12 mis cyfan diwethaf eich bod wedi meddiannu, fel perchennog neu denant, dir neu eiddo arall yn y gymuned a enwir uchod;
- Roedd eich prif neu unig weithle dros y 12 mis diwethaf yn y gymuned a enwir uchod; neu
- Eich bod dros y 12 mis cyfan diwethaf wedi byw yn y gymuned neu o fewn 3 milltir iddi.

Gweler arweiniad pellach yma:

<https://www.electoralcommission.org.uk/sites/default/files/2022-06/Part%201%20Can%20you%20stand%20for%20election%20LGW.pdf>

Ni chaiff rhai pobl sefyll gan gynnwys swyddogion cyflogedig y cyngor cymuned, unrhyw un sy'n destun gorchmynion cyfyngol methdaldu a'r rheini a garcharwyd yn ddiweddar. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau ei fod yn gymwys i sefyll.



HYSBYSIAD CYHOEDDUS

Fe fydd angen i chi gynnwys eich cyfeiriad cartref, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost yn eich llythyr.

Os hoffech gael eich ystyried i gael eich cyfethol i un o'r seddi gwag neu os hoffech ragor o wybodaeth am rôl Cyngorydd Cymuned cysylltwch â:

David Collins
Clerc i Gyngor Cymuned Radur & Threforgan
Hen Ysgoldy'r Eglwys
Heol y Parc, Radur,
Caerdydd CF15 8DF

02920 842213
07463238534
clerk@radyr.wales

DYDDIAD CAU: AR NEU CYN 3 GORFFENNAF 2023

Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried gan y Cyngor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Llofnod

Dyddiedig 1 Mehefin 2023

David Collins
Clerc i Gyngor